www.nationalpoetryday.co.uk

#diwrnodbarddoniaeth

Ar gyfer ysgolion a grwpiau sy'n dathlu Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth

Mae Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth yn ddathliad blynyddol o farddoniaeth a phopeth barddonol. Mae'n gyfle i bawb rannu barddoniaeth, darllen barddoniaeth, ysgrifennu barddoniaeth a mwynhau barddoniaeth.

Gall fod yn ddiwrnod i ddathlu barddoniaeth sydd eisoes wedi'i mwynhau a'i phrofi, neu'n achlysur i ddechrau'r profiad a'r mwynhad hwnnw. Mae barddoniaeth yn cyfrannu'n fawr at ddysgu plant. Drwy farddoniaeth gallwn chwarae gydag iaith, mynegi a rhannu ein teimladau, ac archwilio beth mae pobl eraill yn ei feddwl ac yn ei deimlo.

Drwy ymuno yn y dathliad hwn, gallwch roi cyfleoedd i blant ganfod eu cysylltiadau eu hunain â barddoniaeth, a chynnig ysbrydoliaeth i'w dychymyg a'u natur greadigol hwy.

Eleni, mae Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth ar 4 Hydref, a'r thema yw Newid

Ar Ddiwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth – a phob diwrnod arall – gwnewch yn siŵr fod cerddi ym mhob man ar gyfer pawb. Darllenwch hwy, darllenwch hwy yn uchel, gwnewch ddarluniau ohonynt, perfformiwch hwy, ysgrifennwch neu canwch hwy!

Mae'r antholeg *Byw Brwydr* (Hywel Griffiths, Barddas) yn trafod pob math o frwydrau dros newid, ac yn Saesneg mae antholeg newydd, ***Poetry for a Change*** (Otter-Barry Books) yn cynnwys cymysgedd o 43 o gerddi newydd a chlasurol sy'n trafod pob agwedd ar newid.

Defnyddiwch y pecyn hwn o awgrymiadau a syniadau ar gyfer gweithgareddau ac ymuno yn y dathliadau – nid yn unig ar Ddiwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth ei hun ond drwy'r flwyddyn.

1. Sut i gynllunio eich dathliad

Cynlluniwch eich dathliad Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth gyda'ch gilydd.

Os yw barddoniaeth eisoes yn rhan arferol o fywyd yr ysgol, mae Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth yn gyfle i'w dathlu, a'i rhannu'n ehangach.
Efallai y byddwch yn dymuno defnyddio Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth er mwyn ysbrydoli a threfnu gweithgareddau a fydd yn sicrhau bod barddoniaeth yn chwarae rhan flaenllaw yng ngweithgareddau dysgu a phleser darllen plant a phobl ifanc.
Anogwch y dosbarth i drafod barddoniaeth – Beth maent yn ei wybod am farddoniaeth? Sut maent yn teimlo am farddoniaeth?

Penderfynwch gyda'ch gilydd beth rydych eisiau i'r diwrnod ei gyflawni – e.e.:

- Mwy o bobl yn gwybod am farddoniaeth
- Mwy o bobl yn mwynhau barddoniaeth
- Gwybod am fwy o wahanol fathau o farddoniaeth
- Teimlo y gallech chi fod yn feirdd
- Hwyl!

Pa weithgareddau y byddai angen i chi eu gwneud i gyflawni hyn, e.e.:

- Arddangosfeydd barddoniaeth o amgylch yr ysgol
- Cynnal stomp barddoniaeth
- Cynnal parti barddoniaeth ar gyfer yr ysgol gyfan – neu barti barddoniaeth gyda'r rhieni
- Cwrdd â bardd!

Yn yr adrannau nesaf mae syniadau a gweithgareddau pellach a cherddi i'w darllen.

Sut fyddwch chi'n gwybod beth mae'r diwrnod wedi'i gyflawni – a rhoi gwybod i bobl?

- Gallwch ei gofnodi ac ysgrifennu amdano – ffotograffau, fideos, podlediadau, blogiau a chylchlythyrau
- Gwneud arddangosfeydd ynglŷn â'r gweithgareddau a'r gwaith o ddydd i ddydd
- Gofyn i bawb beth yr oeddynt yn ei hoffi orau, a beth a gawsant hwy o'r diwrnod
- A yw'r disgyblion yn siarad mwy am farddoniaeth? Yn darllen mwy o farddoniaeth? Yn ysgrifennu mwy? Yn ei mwynhau mwy?

2. Pethau y gallwch eu gwneud – syml a hwyliog

Dyma rai syniadau i chi ddewis ohonynt a'u mwynhau ar Ddiwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth, a phob dydd! Peidiwch ag anghofio sicrhau bod gennych lawer o lyfrau barddoniaeth ym mhob man.

Pethau i'w trafod

Beth yw barddoniaeth? Beth mae'n ei olygu i chi?
Gofynnwch i bobl beth maent hwy'n credu yw barddoniaeth – sut y byddech yn ei disgrifio? Beth mae barddoniaeth yn ei olygu iddynt hwy? A yw'n rhywbeth sy'n odli; neu nad oes raid iddo odli? A yw'n ddoniol, hardd, diflas? A yw'n eich helpu i deimlo neu ddeall pethau?
Gwnewch restr a gweld faint o bethau gwahanol yw barddoniaeth i wahanol bobl.
Gallech gael y drafodaeth hon i ddechrau eich gwaith o gynllunio ar gyfer Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth.

Pa fathau o farddoniaeth ydych chi'n gwybod amdanynt?
Gwnewch restr o'r holl wahanol fathau o farddoniaeth y mae pobl yn gwybod amdanynt – e.e. pennill doniol, limrigau, rap, englyn, cywydd, haicw, rhigymau, canu rhydd, barddoniaeth stori. Rhowch y rhestr ar y wal i bobl ei gweld, ac ychwanegwch ati wrth iddynt ganfod mathau newydd o farddoniaeth.

Trafod cerdd
Pan fyddwch yn rhannu cerdd gyda'ch gilydd, dylech ddarllen drwyddi fwy nag unwaith – efallai lond llaw o weithiau. Gwnewch yn siŵr fod gennych gopïau o'r gerdd i bawb ei darllen; gofynnwch i bobl a fyddent yn hoffi ei darllen ar lafar i weddill y dosbarth.
Yna trafodwch y gerdd – dechreuwch drwy ofyn i bobl 'Pam ydych chi'n hoffi – neu pam nad ydych yn hoffi'r gerdd hon?' Esboniwch yn glir bod pawb yn iawn – nad oes ateb cywir neu anghywir. Bydd pawb yn canfod eu hystyron, eu hoffterau a'u casbethau eu hunain, ac mae hyn yn cyfrannu at ddadleuon a thrafodaethau gwych. Dyma rai cwestiynau eraill y gallech eu holi:

- Beth ydych chi'n meddwl sy'n cael ei ddweud yn y gerdd hon?
- Sut mae'r gerdd yn gwneud i chi deimlo? Pam?
- A oes yna unrhyw linellau neu eiriau yr ydych yn eu hoffi'n benodol?

Pethau i'w gwneud
Rhai syniadau am ysgrifennu cerdd …
Daw'r gair 'bardd' o'r hen, hen air Celtaidd 'bardos', sy'n golygu 'un sy'n cyfansoddi barddoniaeth'.
Wrth greu cerdd mae angen i chi feddwl am:

- Creu eich cerdd – chwilio am y geiriau cywir, a'r lle gorau i'w rhoi
- Siapio eich cerdd – a fydd yn odli, yn cynganeddu neu a fydd yn ganu rhydd?
- A fyddwch chi'n defnyddio ffurf neu ddyfais arbennig? – e.e. cwpled, englynion, haicw, limrig, ailadrodd
- Sain a rhythm eich cerdd

Creu cerdd o eiriau mewn papur newydd
Torrwch eiriau ac ymadroddion yr ydych yn eu hoffi o bapurau newydd a chylchgronau. Gosodwch nhw allan o'ch blaen i weld beth sydd gennych, symudwch hwy o gwmpas a'u rhoi mewn grwpiau. Beth allech chi ysgrifennu cerdd amdano? Trefnwch y toriadau i wneud cerdd.

Darllen ar lafar
Mwynhewch y profiad o ddarllen eich hoff gerddi ar lafar, a gwrando ar bobl eraill yn darllen eu rhai hwy. Chwiliwch am rai o lyfrau Bardd Plant Cymru, neu am gerddi fel 'Cwm Alltcafan' (T. Llew Jones), 'Yma o Hyd' (Dafydd Iwan), neu 'Cofio' (Waldo Williams). A beth am lyfrau darluniau sy'n odli, fel *Dau Mewn Cae* (Ceri Wyn Jones), a *Siôn Corn a'r Anrheg Gorau Un* (Tudur Dylan Jones)?

Dysgu barddoniaeth ar eich cof
Mae dysgu neu berfformio cerdd ar lafar ar eich pen eich hun, neu fel grŵp, yn gallu bod yn hwb aruthrol i'r hyder – ac yn llawer o hwyl. A gall dysgu cerdd ar eich cof roi pleser mawr i chi a dealltwriaeth ddyfnach o'r geiriau – a'ch galluogi i rannu'r pleser hwnnw gydag eraill.

Gwylio beirdd 'yn fyw'
Gallwch wylio beirdd yn darllen ac yn trafod eu gwaith ar CD, fideo a'r rhyngrwyd. Gallwch ddod o hyd i'ch hoff feirdd, gwrando arnynt a dod i adnabod rhai newydd. Chwiliwch am 'Hansh' a 'barddoniaeth' ar YouTube i weld llawer o feirdd yn perfformio'u cerddi, a chliciwch yma i glywed Catrin Dafydd, enillydd y Goron yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni, yn egluro pam bod barddoniaeth mor bwysig iddi hi.

Hwyl gyda geiriau – Cyflythreniad!
Mae dewis geiriau sy'n dechrau gyda'r un llythyren yn rhoi synau bendigedig i gerddi.
Gwrandewch ar y ddwy linell yma: 'Nid yw'r felin heno'n malu / Yn Nhrefin ym min y môr' ('Melin Trefin' gan Crwys). Rhowch gynnig arni – gallech greu eich brawddegau a'ch ymadroddion eich hun i ddisgrifio gwahanol fathau o bethau – e.e. 'mae'r môr mawr mor arw nawr'.

Hwyl gyda geiriau – Cynghanedd!
Yn Gymraeg mae gennym ffordd unigryw o ysgrifennu barddoniaeth, sydd ddim yn cael ei wneud yn unman arall yn y byd. Cynghanedd yw'r enw a roddir ar y ffordd hon o farddoni, ac mae'n gyfuniad cymhleth o gyflythrennu ac odlau mewnol. Mae hon yn hen, hen grefft sy'n dyddio'n ôl ganrifoedd lawer ond sy'n dal i gael ei mwynhau heddiw. Gallwch ddysgu llawer ar bodlediad Clera

Hwyl gyda geiriau – Onomatopoeia!
Mae balwnau'n gwneud sŵn pop. Mae dŵr yn dripian. Mae cŵn ffyrnig yn chwyrnu. Mae taranau yn clepian. Meddyliwch am fwy o ymadroddion fel hyn lle mae'r ferf yn swnio fel y peth mae'n ei ddisgrifio – fel y mae'r gair 'pop' ei hun yn swnio fel balŵn yn byrstio!

Cerddi 'rhestr'
Gall gwneud rhestr o bethau droi'n gerdd, e.e. Beth am y rhestr hon o wahanol fathau o goffi?: 'Americano, Piccolo, Cortado, Espresso? Late, Breve, Red-eye? Mocha, Motcha? Cappuccino, Mochachino, Mochiato, Macchiato, Misto? Skinny, Baby, Ffrothi, Fflat?'

Gwnewch restr o'ch hoff bethau a'u llunio'n gerdd. Gallech ddechrau gyda'r ymadrodd: 'Fy hoff bethau yn y byd ...'

Ysbrydoliaeth gan gerdd adnabyddus
Dyma ffordd o fwynhau hoff gerdd neu ddod i adnabod un newydd – ac yna cael eich ysbrydoli i ysgrifennu eich cerdd eich hun. Dewiswch gerdd, a threulio amser yn ei darllen gyda'ch gilydd a'i thrafod, gan gynnwys y cyd-destun y cafodd ei hysgrifennu ynddo. Cuddiwch y teitl – a gofynnwch i bobl pa deitl y byddent hwy'n ei roi i'r gerdd. Pan fyddwch yn teimlo eich bod yn dod i adnabod y gerdd, rhowch gynnig ar roi llinell gyntaf neu linell olaf newydd. Neu cymerwch y llinell gyntaf ac yna parhau gyda'ch cerdd eich hun. Gall hyn fod yn ffordd bwerus o gael eich ysbrydoli gan deimladau'r gerdd wreiddiol er mwyn ysgrifennu cerdd yn mynegi eich teimladau chi eich hun.

Mae hyd yn oed mwy o wybodaeth ac ysbrydoliaeth ar gael ar yr Hwb